PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 17 TACHWEDD 2021, trwy Zoom.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Yr Athro Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Yr Athro Iain Donnison; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Gabor Gelleri, Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Alex Mangold; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Dr Heather Norris; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAberystwyth; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; a Dr Anoush Simon. |
| Yn gweinyddu: | Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd, Sicrhau a Gwella Ansawdd; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Emyr Roberts; Cadeirydd y Cyngor; a Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Yr Athro Simon Banham; Dr Cathryn Charnell-White, Ms Rachael Davey, Yr Athro Sarah Davies, Mr Tim Davies, Dr Rebecca Edwards, Yr Athro Andrew Evans, Yr Athro Nigel Holt, Dr Thomas Jansen, Yr Athro Emyr Lewis, Yr Athro Helen Roberts, Yr Athro Andrew Thomas, Dr Sarah Wydall, a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

## 14. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

    1. Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor, a oedd yn bresennol fel sylwedydd. Ar ran y Cyngor diolchodd Dr Roberts i'r holl staff am eu gwaith yn ystod argyfwng Covid.

    2. Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd, Sicrhau a Gwella Ansawdd, a oedd yn cymryd cofnodion.

2. Ymddiswyddiad

    Chris Loftus, Cyfrifiadureg; gan na dderbyniwyd enwebiad newydd gan yr Adran Cyfrifiadureg, byddai Dr Thomas Jansen yn gwasanaethu yn aelod llawn tan 31 Gorffennaf 2022.

3. Cydymdeimlad

    Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Peter Kingswood, Adran Gerdd

2. John Savidge, Botaneg/Microbioleg

4. <u>Llongyfarchiadau</u>

I Dr Anwen Elias a benodwyd yn Gomisiynydd i'r Comisiwn Annibynnol newydd ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

**15. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**16. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 (SEN2122-021).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**17. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2122-022).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau. Yng nghyswllt trosglwyddo'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol, byddai papur i argymell newid i'r Ordinhadau yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor.

**18. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**19. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2122-023).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Bu'n flwyddyn eithriadol o dawel o ran y cadarnhau a chlirio a chanlyniad hyn fu derbyn niferoedd is o fyfyrwyr yn gyffredinol a diffyg cysylltiedig mewn incwm. Byddai pob

cyllideb yn cael ei hadolygu er mwyn canfod arbedion yn ogystal â chyfleoedd i sicrhau incwm ychwanegol.

3. Cafodd dyddiadau amodol i seremonïau graddio 2022 eu cyhoeddi. Disgwylir i'r seremonïau wyneb yn wyneb gael eu cynnal mewn cyfnod graddio estynedig, rhwng dydd Gwener 08/07/2022 a dydd Sadwrn 16/07/2022. Byddai'n agored i garfanau 2020, 2021 a 2022, yn ogystal ag unrhyw ohiriadau o garfan 2019; cysylltir â graddedigion cymwys o garfanau blaenorol i gael gwybod a ydynt yn bwriadu dod.

**20. PARATOI'R BRIFYSGOL AM FfRHY2027**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) a Dr Helen Roberts (SEN2122-024).

NODWYD

1. Roedd y FfRhY yn ymarfer pwysig ag iddo ganlyniadau ar y sefyllfa ariannol a safleoedd cynghrair am nifer o flynyddoedd. Roedd yn hanfodol bod PA yn cyflwyno'r cynnyrch gorau trwy baratoi'n effeithiol. Roedd y papur yn nodi rhagdybiaethau cyfredol am ddyfodol y FfRhY a fyddai'n llywio gwaith cynllunio; yn amlinellu egwyddorion allweddol wrth baratoi am y FfRhY, gan gynnwys canolbwyntio ar ansawdd yn ogystal â chyfanswm ac adeiladu ar yr hyn a weithiodd wrth baratoi FfRhY2021, ac yn nodi camau gweithredu allweddol o ran staffio.

2. Ar hyn o bryd yr amcan gorau oedd y byddai'r dyddiad cyflwyno ym mis Rhagfyr 2026 a'r asesu yn 2027 (felly FfRhY2027), er bod arwyddion eisoes y gallai hyn lithro ymlaen i 2028. Tynnwyd sylw at y gwahaniaethau mwyaf arwyddocaol a oedd yn cael eu rhagweld: yr holl eitemau cyhoeddedig i fod yn rhai Mynediad Agored; mwy o ddefnydd o fetrigau; anogaeth gryfach am ymchwil rhyngddisgyblaethol a chyflwyno gofynion data agored.

3. Yr egwyddorion allweddol oedd yr angen i Strategaeth FfRhY y Brifysgol sicrhau digon o ddeunydd (allbynnau, astudiaethau achos o effaith, ac ati) i fodloni gofynion cyflwyno FfRhY, a hefyd i sicrhau bod y cyflwyniadau a'r ffurflen ddata o'r ansawdd gorau posibl. Er mwyn cyflawni hyn, roedd angen i PA sicrhau bod ganddi'r staff i ddarparu a chefnogi ymchwil o ansawdd uchel; y mecanweithiau ategol a'r amgylchedd sylfaenol i roi staff mewn sefyllfa i gyflawni eu potensial ymchwil; y mecanweithiau i fonitro a gwobrwyo ansawdd ymchwil yn ogystal â chyfanswm yr ymchwil ar sail barhaus, a gosod disgwyliadau clir i berfformiad ymchwil.

4. Cododd aelodau'r Senedd faterion megis adnoddau ychwanegol penodol, yn enwedig yng nghyd-destun y ffaith bod Sefydliadau Addysg Uwch eraill yn sianelu cyllid ychwanegol i ymchwil ar ôl y pandemig gyda golwg ar y FfRhY nesaf; cynaliadwyedd a sut y gellid rheoli hyn ar lefel uned o asesu; y Model Dyrannu a Rheoli Llwyth Gwaith (WAMM); yr heriau penodol sy'n wynebu adrannau bach, a chais i nodi pa weithgareddau y gellid eu hatal neu dorri lawr arnynt i ganiatáu mwy o amser i ymchwil.

5. Adroddwyd bod data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ynglŷn â swyddogaethau ac oriau a fyddai'n bwydo i'r WAMM; ni allai'r WAMM ynddo'i hun greu amser i ymchwil ond gallai sbarduno newid ymddygiad. Roedd angen canolbwyntio amser ymchwil er mwyn gallu ei ddefnyddio'n ddoeth ac roedd yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn arbrofi â

threfniant amserlennu a fyddai'n rhoi un diwrnod ymchwil yr wythnos i staff. Byddai strategaeth ddigidol y Brifysgol yn mynd i'r afael â rhai o'r materion gweithdrefnol a bydd rheolwyr y Cyfadrannau'n adrodd yn fuan ar adolygiad yr oeddent yn ei gynnal i weld pa brosesau y gellid eu symleiddio. Nodwyd bod strwythurau cymorth y gyfadran, yn enwedig i adrannau bach, wedi cynorthwyo i reoli materion gweithredol trwy ddarbodion maint.

**21. POLISÏAU A MENTRAU AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT PA 2021**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant (SEN2122-025).

NODWYD

1. Yn 2020, cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 gan Weithrediaeth a Chyngor y Brifysgol. Ar sail tystiolaeth gwelwyd nad oes cynrychiolaeth gyfartal, yn enwedig rhwng y rhywiau ymhlith staff uwch, a bod diffyg cynrychiolaeth ddigonol o grwpiau ethnig ymhlith corff y staff a'r myfyrwyr yn gyffredinol. Dyma'r meysydd y mae'r cynllun yn canolbwyntio arnynt erbyn hyn. Roedd y papur yn nodi rhywfaint o'r gwaith a wnaed a'r cyflawniadau a gafwyd ers cymeradwyo'r cynllun gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect cydweithredol *Race Access and Success*, y datganiad blynyddol i Stonewall ac Athena Swan.

2. Roedd y Weithrediaeth wedi cymeradwyo ymuno â *Dim Hiliaeth Cymru*, a oedd yn galw ar bob sefydliad ac unigolyn i hyrwyddo cytgord a thegwch hiliol, ac roedd wedi rhoi cymeradwyaeth amodol, yn amodol ar gostio manwl, i wneud cais am statws Prifysgol Noddfa - roedd y fenter hon yn cefnogi datblygiad prifysgolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a fwriadwyd i groesawu mudwyr gorfodol a oedd yn ceisio neu wedi ceisio diogelwch rhyngwladol yn y Deyrnas Gyfunol.

3. Argymhellwyd y dylid mabwysiadu diffiniad yr IRHA o wrth-Semitiaeth a diffiniad gwaith y Grŵp Hollbleidiol Seneddol o Islamoffobia; byddai angen diweddaru polisïau i'w cyflwyno i'r Senedd yn 2022.

PENDERFYNWYD

4. Croesawu'r cyfeiriad a gynigir yn y papur.

5. Mabwysiadu diffiniadau'r IRHA ac Islamoffobia a dod â dogfennau polisi llawn gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2022. (**GWEITHREDU**: Yr Athro Neil Glasser)

**22. PWYLLGOR YMCHWIL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2122-026)

NODWYD: Tynnwyd sylw'r Senedd at ddwy eitem:

1. Eitem 4.1 Ceisiadau Ymchwil Chwarterol & Data Dyfarniadau - Wrth i gyfrifon diwedd blwyddyn gael eu cwblhau, darparwyd drafft o'r data cyllid ymchwil. Roedd hyn yn

dangos darlun sy'n gwella, ac yn nodi bod dros 234 o geisiadau gwerth £53.8 miliwn wedi'u cyflwyno i 71 o gyrff ariannu. Hefyd enillwyd £15.2 miliwn o ddyfarniadau newydd gan 80 o brosiectau.

2. Eitem 4.5.2 Polisi Mynediad Agored UKRI - O fis Ebrill 2022 byddai'n rhaid cael Mynediad Agored i bob erthygl ymchwil ar unwaith heb unrhyw gyfnod embargo, ac yn 2024 byddai'n rhaid i gyhoeddiadau ffurf-hir fod yn rhai Mynediad Agored o fewn 12 mis i'w cyhoeddi. Roedd pob prifysgol, gan gynnwys PA, yn wynebu costau uwch o ran Mynediad Agored. Nid oedd yn hysbys eto beth fyddai'r costau llawn na sut y byddai gofynion Mynediad Agored UKRI yn cael eu cynnal.

**23. Y BWRDD ACADEMAIDD**

1. <u>Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd), ynglŷn â chyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2021 (SEN2122-027).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 3 Tachwedd 2021.

2. Yn achos yr Ysgol Filfeddygaeth, eglurwyd bod y rheol na ddylid rhyddhau deunydd addysgu newydd ar gyfer semester penodol yn y cyfnodau a neilltuir i adolygu ac asesiadau yn berthnasol os oedd yr addysgu'n parhau trwy ddiwedd cyfnod adolygu ac asesu semester un.

2. <u>Datganiad Sicrwydd Ansawdd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN2122 028).

NODWYD

1. Diben yr adroddiad oedd rhoi'r dystiolaeth briodol i Gyngor y Brifysgol fel y gallai'r Cyngor gadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni, a'i bod yn dal i gyflawni, ei rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau'n ymwneud â sicrwydd ansawdd (gwelir y datganiadau llawn ar ddiwedd y ddogfen). Adroddai'r ddogfen ar weithgaredd yn 2020/21 yng nghyd-destun Covid-19. Gwahoddwyd aelodau'r Senedd i anfon sylwadau at y Dirprwy Gofrestrydd cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau ar gyfer mynd ymlaen i gyfarfod nesaf y Cyngor.

2. Tynnwyd sylw at y matrics risg ar dudalennau 4-8; roedd Partneriaethau, Arholwyr Allanol a Phrosesau a Strwythur wedi'u gostwng un lefel, ond roedd y meysydd Anrhydedd Da (yng nghyd-destun chwyddiant graddau), Adolygiadau Adrannol (a oedd newydd ailgychwyn ar ôl cael eu hatal am gyfnod oherwydd Covid), ac Apeliadau a Chwynion (a oedd wedi cynyddu yn eu nifer a'u cymhlethdod), wedi'u codi lefel i nodi lefel uwch o risg. Roedd Adroddiad Tair Blynedd CCAUC wedi

awgrymu y dylai’r Brifysgol edrych ar ei sylwebaeth ynghylch Llais y Myfyrwyr a chafodd hyn sylw o dan y pennawd Llais y Myfyrwyr. Rhoddai’r adran ar Bartneriaethau grynodeb o adroddiad blynyddol manylach a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Cyngor.

3. Nodwyd sylwadau’n gysylltiedig â gweithrediad y Pwyllgor Cynllunio Portffolio ac ar dynnu’n ôl gynlluniau nad oeddent yn denu llawer o fyfyrwyr. Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio Portffolio yn cael ei adolygu a byddai'n egluro'r berthynas rhyngddo a Phwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau. Yn yr un modd, roedd angen egluro'r berthynas â'r Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg er mwyn tynnu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ôl, a'r asesiad cysylltiedig o'r effaith ar yr iaith, gan gynnwys goblygiadau grantiau pwnc CCC; nodwyd bod gan y Pwyllgor Cynllunio Portffolio gynrychiolaeth ar gyfer astudiaethau cyfrwng Cymraeg.

4. Cadarnhaodd Cynrychiolydd Materion Academaidd Undeb y Myfyrwyr nad oedd gan yr Undeb unrhyw sylwadau i'w hychwanegu, a chadarnhaodd iddynt fod yn rhan o'r Bwrdd Academaidd ac is-bwyllgorau amrywiol lle cafodd y materion yn yr adroddiad eu hystyried yn fanwl. Nododd Cadeirydd y Cyngor fod y drafodaeth yn rhoi cryn sicrwydd i'r Cyngor bod yr adroddiad wedi'i ystyried yn fanwl gan y Senedd.

PENDERFYNWYD

5. Argymell y dylai'r Cyngor gadarnhau'r Datganiadau Sicrwydd Ansawdd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. <u>Adroddiadau Arholwyr Allanol 202-21</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN2122-029).

NODWYD

1. Cafodd adroddiad ar wahân ei gynnwys yn rhoi crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn Adroddiadau'r Arholwyr Allanol am y sesiwn flaenorol. Roedd Adroddiadau'r Arholwyr Allanol wedi'u hystyried yn fanwl gan Bwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau hefyd.

2. Yn gyffredinol, roedd yr arholwyr wedi cadarnhau bod y safonau'n gyson â rhai mewn prifysgolion eraill, bod meincnodau pwnc wedi eu cyrraedd, a bod y Byrddau Arholi wedi cadw at reoliadau'r Brifysgol. Roedd yr arholwyr allanol hefyd wedi canmol ymroddiad staff academaidd a staff y Gofrestrfa, yn ogystal ag ymatebion yr adrannau i'r pandemig Covid-19 wrth roi cefnogaeth academaidd i fyfyrwyr a chynnal y prosesau asesu ac arholi o bell.

4. <u>Monitro Blynyddol y Cynlluniau a Addysgir a Chynlluniau Gweithredu'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) 2020-2021</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN2122-030).

NODWYD

Cafwyd darlun cyffredinol o'r materion allweddol o'r ymarfer Monitro Blynyddol a Chynlluniau Gweithredu'r ACF mewn detholiad o gofnodion y Bwrdd Academaidd. Diolchwyd i bob adran am gynnal yr ymarfer, ac yn arbennig i'r Deoniaid Cyswllt (Dysgu Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) am lunio'r adroddiadau cryno o fewn amserlen dynn iawn. Byddai amseru’r cylch adrodd yn cael ei adolygu eto.

**24. BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR**

1. Adroddiad gan y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead (SEN2122-031).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ar 13 Hydref 2021. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Roedd y Cylch Gorchwyl a'r weithdrefn ar gyfer ystyried ymgeiswyr a chanddynt euogfarnau troseddol wedi'u hadolygu a'u diweddaru.

**25. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2122-032);

2. Grantiau Ymchwil (SEN2122-033); a

3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2122-034).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**26. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad yn cynnwys y cofnodion canlynol (SEN2122-035):

    1. Pwyllgor Ymchwil (10 Medi 2021);

    2. Y Bwrdd Academaidd (3 Tachwedd 2021);

    3. Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (13 Hydref 2021); a

4. Y Cyngor (21 Medi 2021).

NODWYD

2. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

**27. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

NODWYD

Y byddai cyfarfod arbennig o'r Senedd yn cael ei gynnal ar 12 Ionawr 2022 i ystyried dogfen Dadansoddiad Hunanwerthusiad y Brifysgol cyn ei chyflwyno i'r ASA ar gyfer yr Arolwg Gwella Ansawdd, a fyddai'n digwydd yn y gwanwyn.